# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll



Cynhaliwyd y cyfarfod drwy ap cymdeithasol Skype
Nos Fawrth 9fed o Fehefin, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** John Owen **(JO),**William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **2.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Gan ei bod yn anodd cyfathrebu dryw'r ap awgrymodd y Cadeirydd i gadw'r Cyfarfod yn fyr. |
| **3.** | | **Datgan Diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Dim |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Mai, 2020** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd GW ac eiliodd GJ gywirdeb Cofnodion Mai a chytunodd pawb |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | <u>Gwasanaeth Post yn y gymuned</u><br>Cadarnhaodd LJ ei bod wedi cael gair gyda swyddog y gwasanaeth Post a'i fod ynta wedi cadarnhau mae ar ddydd Llyn yn unig gynhelir y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mynegodd rhai Aelodau eu siom nad yw'r trigolion wedi eu hysbysu o'r seibiant i'r gwasanaeth, cytunodd AJ lythyru gyda'r Swyddfa Bost i'w hysbysebu. |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Dim |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad.....................................................*

*Clerc Cygnor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | | **Cais am wybodaeth gan Adran Treth y Cyngor Sir i ymwneud a safle Plas Pistyll**<br>Yn anffodus roedd y Clerc wedi methu a chael unrhyw wybodaeth hyd yn hyn. |
| **8.** | | **Biniau Baw ci**<br>Eglurodd y Clerc ei bod wedi cael gair gyda Swyddog Gorfodaeth Stryd Dwyfor a'i fod wedi cadarnhau caniatâd i'r Cyngor Cymuned osod 3 bin baw ci yn y gymuned maint 50lts. Aeth ymlaen i esbonio ei bod dal i ddisgwyl am gadarnhad cost eu gwagio yn wythnosol.<br>Awgrymodd SP bydd well disgwyl tan fod y Cyngor yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb cyn cadarnhau eu lleoliad a mynd ymlaen i'w archebu. Cytunodd pawb. |
| **9.** | | **Gôr yrru yn yr ardal**<br>Nid oedd diweddariad pellach yn ystod y cyfarfod. |
| **10.** | | **Gwersylla yn y Maes Parcio**<br>Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu ar heddlu ac wedi cael rhif achos, a'u bod yn awgrymu i unrhyw gwyn pellach gael ei wneud gyda'r rhif. Roedd dal i ddisgwyl cysylltiad gyda Phlismon lleol i'r ardal.<br>Cadarnhaodd yr aelodau mai dim ond un cerbyd sydd bellach yn gwersylla ar y safle, tebyg yn dilyn ymweliad gan yr heddlu.<br>Cadarnhaodd GJ ei fod erbyn hyn wedi mynd ati i osod yr arwydd.<br>Aeth y Clerc ymlaen i gadarnhau ei bod yn disgwyl anfoneb wedi ei addasu yn dilyn camddealltwriaeth am yr arwydd.<br>Cytunodd yr Aelodau gadw llygaid craff ar y sefyllfa. |
| **11.** | | **Ffurflen Flynyddol Cyngor Cymuned Pistyll am y flwyddyn daeth i ben 31 Mawrth 2020**<br>Cytunwyd bydd y Cadeirydd yn ychwanegu ei llofnod yn ddigidol. |
| **12.** | | **Tai Cynefin, ardal Llithfaen**<br>Derbyniwyd gwybodaeth bod tŷ cynefin dwy lofft ar fin ddod yn wag yn Llithfaen. Cytunodd yr Aelodau fynd ati i hysbysebu i'r trigolion lleol. |
| **13.** | | **Materion Lleol**<br>Dim |
| **14.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***14.1*** | **Ymateb gan Argraffdy Eryri i ymwneud ac arwyddion i'r Maes Parcio**<br>Rhannwyd y wybodaeth o flaen llaw. Diolchodd yr aelodau am y datrysiad. |
| | ***14.2*** | **Diweddaraf Covid 19 gan Liz Saville Roberts**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y Cyfarfod |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad.......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | ***14.3*** | **Archwiliad Mewnol Cyngor Cymuned Pistyll**<br>Cytunwyd i'r Clerc yrru'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r Archwilwyr |
| ***14.*** | | **Cyllid** |
| | ***14.1*** | **Cyfrifon 2020/21**<br>Cynigiodd LJ gywirdeb y cyfrifon, eiliodd YE a chytunodd pawb |
| | ***14.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** |

**<u>Cyfrif Cyfredol</u>**

| Dyddiad | Taliadau | Derbyniadau |
|---|---|---|
| **1 - 31 Ebrill** | 3000.00 | |
| | 600.00 | |
| | 160.00 | |
| | 14.00 | |
| | 150.00 | |
| | | 5,750.00 |
| | **Balans - £7,942.49** | |
| **1 – 31 Mai** | 1,000.00 | |
| | 500.00 | |
| | 705.61 | |
| | 160.00 | |
| | 16.10 | |
| | **Balans - £5560.78** | |

**<u>Cyfrif Cadw</u>**

Balans a ddygwyd ymlaen o 7 Ebrill i 6 Mai **£4,403.46**
*Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn y gyfriflen gyfredol I Fehefin*

***14.3*** **Taliadau a gymeradwywyd yn ystod y Cyfarfod**

£160 Cyflog Clerc
£14.00 Treuliau Clerc
£200.00 Tori gwair y fynwent

| | | |
|---|---|---|
| ***15.*** | | **Trefniadau a dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>Trafodwyd posibilrwydd o beidio cael cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf ac yn hytrach ei gynnal yn ystod mis Awst.<br>**Bydd yr Aelodau yn cyfathrebu yn ystod y mis er mwyn cyrraedd penderfyniad cadarn.** |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*